PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 26 Mehefin 25, 2026 50c.

## Cyfarfodydd Blynyddol 2026




Yr wythnos hon cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn Abertawe, a dymunwn fendith Duw yn helaeth ar yr holl weithgareddau a hynny o dan eneiniad yr Ysbryd Glân. Eglwysi Annibynnol cynulleidfaol yw ein heglwysi ni sy'n uniongyrchol atebol i'r Arglwydd. Yn wahanol i'r eglwysi Presbyteraidd, Methodistaidd, Anglicanaidd a Chatholig nid oes unrhyw haenau dynol o awdurdod rhwng yr eglwys leol a'r Arglwydd. Mae hyn yn rhoi rhyddid arbennig i ni i weithredu ac i dystio i'r newyddion da yn lleol gan fod yn hyblyg wrth ymateb i'r anghenion a welwn o'n cwmpas. Gwaetha'r modd nid ydym wedi cymryd mantais o hyn dros y degawdau ac mae tuedd ynom aros yn rhigolau cyfarwydd ein harferion.

Er hynny, nid eglwysi ynysig ydym, ond rhai sy'n ymwybodol ein bod yn rhan o Gorff Crist yn lleol, cenedlaethol a byd-eang. Dyna pam fod Undeb yr Annibynwyr yn anhepgorol i'n hiechyd eglwysig ac i'n dealltwriaeth o fod yn bobl Iesu heddiw. Oherwydd, y mae'r Undeb yn ein galluogi i gydweithio gydag eglwysi amrywiol a thraddodiadau gwahanol ar hyd a lled y byd. Trwy'r Eglwysi Rhyddion, Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang, Cytûn, Cyngor yr Eglwysi Diwygiedig, Cymorth Cristnogol, A Rocha a llu o sefydliadau eraill cawn gyfle i gydweithio a datblygu tystiolaeth Gristnogol yn ehangach nac y gallwn ar ein pennau ein hunain. Ar ben hynny mae gan yr Undeb yr arbenigedd i'n cynorthwyo, y weledigaeth i'n hysgogi a'r arian i noddi gweithgareddau arloesol.

Felly, pob dymuniad da i'r Cyfarfodydd Blynyddol, diolchwn i'r staff am eu gwaith diflino ac edrychwn ymlaen at glywed beth fydd yn deillio o'r trafod eleni. (Gol.)

## Panel Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr

**ARWYN OWEN HUGHES**
Llithfaen

**SIAN MEINIR**
Penarth

Hyfrydwch yw nodi fod y ddau fyfyriwr uchod wedi cwblhau cwrs academaidd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig, ac yn agored i dderbyn galwad oddi wrth yr eglwysi.
I dderbyn eu manylion cyswllt, neu am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu, sef y Parchg Carwyn Siddall:
07732974819
carwyn@annibynwyr.cymru

Dymunwn fendith Duw ar y ddau ohonynt.

## Llais Wcráin yng Nghymru



Cynhaliwyd bore coffi yng Nghapel Trinity, Sgeti fore Llun 15 Mehefin i godi arian i elusen Voice of Ukraine Wales and friends. Trefnwyd yr achlysur gan Dr Dai Lloyd a Dr Cath Lloyd a'r bwriad yw darparu cyfarpar meddygol i'w hanfon i Wcráin. Daeth tair gwraig, Svitlana Phillips, Oksana Savchenko ac Olena Kheminich, sy'n wreiddiol o Wcráin ond yn byw yn Abertawe bellach, atom ni i arddangos enghreifftiau gwych o wisg draddodiadol a gwaith llaw – brodwaith sy'n rhan o draddodiad cryf Wcráin. Roedd hyd yn oed brodwaith ar yr esgidiau! Siaradodd Svitlana yn deimladol iawn am arferion a thraddodiadau Wcráin sydd, fel Cymru yn cynnwys diddordeb mewn cerddoriaeth werin, clasurol a roc modern. Cyfeiriodd hefyd, wrth gwrs, am y sefyllfa dorcalonnus sydd yno ar hyn o bryd, a safbwynt penderfynol trigolion Wcráin o bob oed i fod yn wlad annibynnol yn erbyn pob gorthrwm.

### Cysylltiadau

Atgoffwyd ni gan Dr Dai Lloyd am hen gysylltiad rhwng Cymru ac Wcráin gan i John James Hughes, peiriannydd a gŵr busnes o Ferthyr Tydfil fynd i ardal Donbas yn 1870 lle



sefydlodd waith haearn enfawr a phwll glo. Dyma ardal Donetsk heddiw. Hefyd am Gareth Jones, newyddiadurwr, a ysgrifennodd yn 1933 am y Newyn Mawr yn Wcráin, gan roi ei fywyd mewn perygl wrth ddatgelu hynny. Mae yna blac i gofio amdano yng ngholeg Aberystwyth. Lladdwyd e' yn 1935 – gan heddlu cudd Rwsia mae'n debyg. Cyfeiriodd Svitlana hefyd at y ffaith i bobl Wcráin gefnogi pobl cymoedd Cymru adeg streic.

Cyfeirir at Wcráin fel 'basged fara Ewrop' gan ei bod yn allforio mwy o wenith, barlys, rêp a blodau'r haul nac unrhyw wlad arall. Mae'r rhyfel yn cael dylanwad anfanteisiol ar hyn nawr ac mae llawer o'r byd yn dioddef.

Diolchodd y Parchg Jill-Hailey Harries yn gynnes iawn i Svitlana, Oksana ac Olena am ddod atom ni ac arddangos eu gwisgoedd a'r brodwaith maen nhw mor falch ohono. Hefyd i Dai a Cath am drefnu'r achlysur ac, wrth gwrs, i bawb am eu cefnogaeth.

**Ann Davies**
Bethel Trinity Sgeti

# Teyrnged i Dewi

*Dyma ran olaf y deyrnged gan Fiona Gannon i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes.*

Doedd dim modd treulio amser yng nghwmni Dewi heb sylweddoli bod ganddo synnwyr digrifwch iach – roedd elfen o ddireidi yn brigo i'r wyneb yn fynych ar hyd ei oes, o'r adeg pan fu iddo siafio'i fwstash rhwng dwy olygfa mewn cyflwyniad dramatig yng Ngellimanwydd, er mawr syndod a difyrrwch i'r gynulleidfa, i'r tro pan fu'n tynnu coes Mari a Gruff trwy ffugio nad oedd yn deall rheolau'r gêm gardiau Uno, cyn eu trechu'n rhacs trwy ddewis y cerdyn gorau posib. Mae cymaint i'w ddweud am Dewi, cymaint i'w nodi, a chymaint i ddiolch amdano! Dewi yr Arweinydd, Dewi y Bugail, a Dewi y Cydymaith

### Arweinydd

Roedd Dewi yr Arweinydd yn grymuso pobl ac yn agor posibiliadau, yn hytrach na gwthio'i farn ei hun. Wedi dweud hynny, roedd bob amser yn sefyll yn gadarn dros ei egwyddorion. Bu'n ymgyrchu gydol ei oes dros waith Cymorth Cristnogol a Chymdeithas y Cymod, ac roedd yn herio pob anghyfiawnder a gwybodaeth gamarweiniol oedd yn camfarnu pobl. Nid dadlau'n danllyd oedd ei ffordd, ond datgan y gwir yn ffeithiol, gyda hyder tawel.



### Bugail

Roedd Dewi y Bugail ymhlith y mwyaf gofalgar. Roedd yn wir yn gweithredu cynnwys ei lyfr gwerthfawr *Gofala Di*, ac yn fawr ei gonsyrn am bob un oedd dan ei ofal, p'un a oedd hynny yn ei ofalaethau, ymhlith ei gyd-weinidogion ac eglwysi'r Undeb, neu yma yng Nghapel y Nant. Chwrddais i erioed â neb oedd yn well gwrandäwr na Dewi, ac roedd ganddo'r ddawn i ddod o hyd i'r union eiriau addas i roi cysur a chynhaliaeth ym mhob sefyllfa.

### Cydymaith

Bu Dewi yn Gydymaith i bawb ohonom, ar lefel bersonol agos o fewn ei deulu fel gŵr, tad a thad-cu, fel cyfaill triw, ffyddlon, ac fel un oedd yn caru ei gymdogion ar draws y byd. Roedd gan Dewi'r ddawn i feithrin perthynas unigol werthfawr gyda phob unigolyn, ac roedd yn gwmni da ar adegau llawen a thrist. Rwy'n siŵr y bydd pob un ohonom ni'n cofio'r wên fawr fyddai'n ymledu ar draws ei wyneb wrth glywed newyddion da, a'r ebychiad llawen 'yn y wir?' Atgofion i'w trysori!

### Cariad at ei Arglwydd

Ond yn ogystal â meithrin perthynas â'r bobl o'i gwmpas, treuliodd Dewi ei fywyd cyfan yn dod i adnabod ei Arglwydd yn well. Ac fel mae'r emyn 'Air Disglair Duw' yn ein hatgoffa, po fwyaf o amser y treuliwn ni yng nghwmni Duw, mwya'n y byd y bydd Duw i'w weld yn ein bywydau ninnau:

> A phob dydd, wrth im syllu a syllu
> daw fy mywyd yn ddrych i'th oleuni.


Roedd cariad Duw yn disgleirio'n eglur ym mywyd Dewi, ac nid yw'n syndod o gwbl mai un o'i bleserau mwyaf yn ystod ei salwch oedd cael pori yn ei Feibl. Fel soniodd Ifan un diwrnod yn y tŷ – mae'n ddiwrnod da os yw Dad yn gofyn am ei sbectol a'i Feibl.

Diolch am bopeth, Dewi, roeddet ti'n wir yn gwmni gwych ar daith bywyd ac mae'r hiraeth ar dy ôl yn aruthrol. Allwn ni ddim atal y dagrau heddiw, achos rydyn ni'n gweld dy eisiau di'n ofnadwy, ond dagrau drosom ein hunain ydyn nhw, achos rydyn ni'n gwybod dy fod di, y gwas da a ffyddlon, bellach yng nghwmni llawen dy Arglwydd. Cysga'n dawel wedi'r holl waith – cawn gwrdd eto yn y bore tragwyddol.

# Natur a ni

## Syr David Attenborough

*Yr ail ran*



### Uned deuluol David

Cyfarfu David â'i wraig, Jane, pan oeddent yn fyfyrwyr. Ar ôl i David gwblhau ei Wasanaeth Cenedlaethol gyda'r Llynges Frenhinol yn 1950 fe briododd y ddau pan oeddent ill dau yn bedwar ar hugain mlwydd oed. Dywedodd David hyn am ei wraig Jane, 'Roedd Jane yn fenyw arbennig iawn. Rhoddodd y gore i'w swydd fel cogyddes ar ôl i ni briodi oherwydd roedd hi'n ddigon hen ffasiwn i gredu bod ymbriodi a magu teulu yn yrfa. Roedd hi'n arbennig yn yr ystyr iddi ganiatáu i fi grwydro'r byd. Gwyddai bod hynny'n gwneud fi'n hapus; roedd hi'n dymuno hynny i fi.' Ni fethodd Jane i gwrdd â, a chroesawu ei phriod yn ôl adre yn y maes awyr ar ôl ei deithiau mynych. Sylwodd un o'r technegwyr oedd yn gynorthwywr i David ar ei deithiau sut oedd y naturiaethwr proffesiynol, gwrthrychol a chŵl yn trawsnewid i fod yn ŵr priod llawn cariad angerddol wrth gofleidio a chusanu ei wraig wrth iddo ddychwelyd adref.

### Colli Jane

Bu Jane farw ddiwrnod cyn iddynt ddathlu 47 mlynedd o fywyd priodasol a hwythau yn 70 mlwydd oed yn Chwefror 1997. Roedd David yn ffilmio yn Seland Newydd ar y pryd pan gafodd yr alwad ffôn yn ei hysbysu bod Jane wedi dioddef gwaedlif yn ei hymennydd ac wedi disgyn i goma. Meddai David, 'Ni lwyddodd Jane i ddod allan o'r coma, ond gwyddai fy mod yna gyda hi oherwydd fe gydiodd yn fy llaw.'

Roedd y brofedigaeth yn ergyd fawr iawn i David a chyfaddefodd rhai misoedd wedyn, 'I am absolutely distraught. I don't know how I'm going to adapt to life without her.' Pan ofynnwyd i David i ddewis un agwedd o'i berthynas â'i briod, ei ateb oedd, 'ei phresenoldeb.'

Roedd Robert, eu plentyn cyntaf wedi ei eni yn 1951 a Susan ddwy flynedd yn ddiweddarach. Erbyn hyn mae'r ddau yn eu saithdegau ac mae David yn agos iawn atynt. Bu Robert yn uwch-ddarlithydd mewn Bioanthropoleg ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia a bu ei chwaer, Susan, yn brifathrawes ar ysgol gynradd. Mae David yn daid balch iawn o'i wyrion.

### Ei gred?

Mae David yn cyfaddef yn agored mai agnostic ydi o. Mae wedi datgan hynny mewn cyfweliad flynyddoedd yn ôl, 'Ni wyddom ddim ac ni allwn wybod dim am fodolaeth Duw na'i natur chwaith.' Doedd eu rhieni heb fagu'r bechgyn i fynychu gwasanaethau Cristnogol. Er hynny, nid yw David yn dibrisio cred neu ffydd pobl eraill. Meddai, 'Does dim gwrthdaro rhwng y ddamcaniaeth wyddonol am esblygiad a'r gred posibl mewn bodolaeth oruwchnaturiol. Fel gwyddonydd, dwi'n dibynnu'n llwyr ar dystiolaeth weledol a


*parhad ar dudalen 7*

Yr Adran
Gydenwadol

25 Mehefin 2026
Rhifyn 278

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Open Doors – Ymgyrch 'Arise Africa'




Mae gennym ni newyddion gwych! Mae deiseb 'Arise Africa' wedi cyrraedd carreg filltir arbennig, gyda dros 600,000 o lofnodion.

## Pam mae angen ymgyrch 'Arise Africa' o gwbl?

Mae miliynau o Gristnogion yn wynebu erledigaeth dreisgar yn Affrica is-Sahara. Maent wedi cael eu gyrru allan o'u cartrefi a'u pentrefi. Mae eu heglwysi wedi cael eu llosgi, ac ymosodwyd ar eu cartrefi a'u pentrefi. Mae bywydau wedi'u colli ac mae 16.2 miliwn o Gristnogion yn Affrica wedi eu dadleoli gan drais a gwrthdaro.

"Mae miliynau o Gristnogion wedi'u dadleoli yma yn Nigeria," meddai'r Parchedig Barnabas, gweinidog sy'n byw gyda'i deulu mewn gwersyll yng ngogledd Nigeria i rai sydd wedi eu dadleoli'n fewnol. Bu raid iddyn nhw orfod ffoi wedi i'w frawd a'i chwaer yng nghyfraith gael eu lladd ac i Barnabas gael ei anafu'n ddrwg gan derfysgwyr Islamaidd. "Mae yna filiynau lawer o Gristnogion wedi'u dadleoli yn Affrica. Does dim ots gan y newyddion am hyn; dydy gwleidyddion ddim yn sôn amdano; dydy llywodraethau ddim yn sôn amdano; does yna ddim sôn amdano mewn gwleidyddiaeth ryngwladol. Does yna neb yn sôn am y peth."



*Y Parch. Barnabas sy'n byw yn un o nifer o wersylloedd i bobl wedi'u dadleoli yn Nigeria*

Nod ymgyrch 'Arise Africa' yw sicrhau *bod* pobl yn sôn am yr argyfwng hwn. Ac nid Nigera yw'r unig wlad yn Affrica sy'n cael ei heffeithio.

Mae Affrica Is-Sahara'n cynnwys holl wledydd Affrica sydd i'r de o anialwch y Sahara. Mae Open Doors yn canolbwyntio'u cefnogaeth yn y gwledydd hyn sy'n adrodd am lefelau 'uchel' ac 'uchel iawn' o erledigaeth yn Rhestr Gwylio'r Byd, sef: Somalia, Sudan, Eritrea, Nigeria, Mali, Burkina Faso, Gweriniaeth Canol Affrica, Niger, Ethiopia, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (DRC), Mozambique, Comoros, Cameroon, Chad, Kenya, Tanzania, Djibouti, Burundi, Rwanda, Togo, Guinea, Angola, Uganda, Cote D'Ivoire, Gambia, De Sudan, Guinea Cyhydeddol, Sierra Leone a Guinea Bissau.

Fel y dengys y map uchod, gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr erlid mewn deng mlynedd. Bu cynnydd mewn erledigaeth dreisgar, ac mae holl dirwedd erledigaeth grefyddol wedi newid yn ddirfawr.

## Diwrnod Rhyngwladol o Weddi 2026 – nodwch y dyddiad!

**Ar 1 Tachwedd 2026 cynhelir Diwrnod Gweddi Rhyngwladol dros yr Eglwys sy'n cael ei herlid.**

Yn ystod mis Tachwedd hefyd bydd deiseb fyd-eang 'Arise Africa' yn cael ei chyflwyno i lywodraethau ledled y byd, a hefyd i'r Undeb Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig. Felly, bydd hwn yn adeg hollbwysig ar gyfer gweddi.

Dyna pam rydym yn gofyn i gynifer o eglwysi â phosibl wneud lle yn eu gwasanaethau ar y Sul hwn ar gyfer amser gweddi. I'ch helpu chi, mae Open Doors wrthi'n llunio pecyn adnoddau arbennig, a gofynnir ichi nodi'r dyddiad yn eich dyddiadur.

Yn ddiweddar, cafwyd cyfle i weld yr arddangosfa 'Dagrau Aur' yng Nghymru a sylwi ar straeon dirdynnol gan ferched o Nigeria oedd wedi wynebu trawma. Ar ôl gweld yr arddangosfa, y peth lleiaf y gellid ei wneud fyddai arwyddo'r ddeiseb 'Arise Africa' a galw ar y gymuned fyd-eang i sicrhau bod Cristnogion agored i niwed yn Affrica Is-Sahara yn cael eu hamddiffyn, yn derbyn cyfiawnder ac adferiad.

Mae cyfle o hyd i ychwanegu eich llofnod. Ac anogwch eraill i wneud hynny. Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw Cristnogion yn Affrica yn dioddef heb i neb sylwi.

Os ydych chi eisoes wedi llofnodi'r ddeiseb, anogwch eich eglwys, eich teulu a ffrindiau i ychwanegu eu lleisiau hwythau. Bydd hyn yn helpu Open Doors i gyrraedd y nod o filiwn o lofnodion yn fyd-eang er mwyn galw yn syml am ddiwedd ar y trais a dechrau'r iachâd.


Mae modd llofnodi ar y we drwy'r ddolen isod neu argraffu'r ddeiseb a derbyn y llyfryn Rhestr Wylio'r Byd 2026 yn Gymraeg oddi ar wefan Open Doors:

[Arise Africa - Open Doors yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon]

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 28

## Ymson Athaleia

Fe'm cofir gan rai fel un a gipiodd goron yn gyfrwys, er nad oedd yn eiddo imi mewn gwirionedd. Cofia eraill imi fod yn dreisgar ac yn uchelgeisiol. Ond cyn ichi fy meio, gofynnaf ichi wrando ar fy stori. Oherwydd nid stori sy'n gaeth i'r gorffennol ydyw, ond un sy'n parhau i fodoli, lle bynnag y mae grym yn trechu egwyddor.

Pan fu farw fy mab, gwelais gyfle. Ofnwn y byddwn yn colli fy nylanwad grymus, yn colli rheolaeth, yn colli fy statws. Yn hytrach nag ymddiried yn Nuw a pharchu'r olyniaeth frenhinol, dewisais lwybr arall. Dewisais fy nghoron. Argyhoeddais fy hun na fyddai dim yn fy nhroi oddi ar y llwybr. Roeddwn yn benderfynol. Cafodd y rhai a safai yn fy ffordd eu dinistrio. Am y chwe blynedd y bûm yn teyrnasu dros Jwda, fe wnes yn sicr o un peth – allai neb fy herio.

Roedd popeth yn iawn i mi, am gyfnod. Gwrandawai'r bobl arnaf ac ufuddhau i fy mympwyon. Siapiwyd y genedl yn gelfydd o'm herwydd i. Ar yr wyneb, ro'n i'n llwyddiannus. Ychydig a wyddwn bryd hynny nad yw grym sy'n creu ofn fyth yn ennill. Gyda phob gorchymyn newydd, deuai llif ansicrwydd yn nes ataf. Ro'n i'n sigo'n araf bach. Ces fy ngwthio ymhellach oddi wrth gyfiawnder gyda phob gweithred i'm hamddiffyn fy hun. Doeddwn i ddim yn ddigon craff i sylweddoli mai'r hyn oedd yn fy ngyrru ymlaen oedd fy ngelyn.

Yna, daeth y gwir i'r amlwg.

Yn ddiarwybod i mi, roedd un o'r plant y ceisiais eu lladd yn fyw! Cadwyd Joas yn ddiogel, ac mewn eiliad gwelais fy nheyrnas yn dymchwel. Diflannodd y grym a fu yn fy meddiant am flynyddoedd. Roeddwn i wedi adeiladu fy nyfodol ar ofn a thrais. Gŵyr pawb call nad ydynt yn bethau i osod sylfaen arnynt. Ni all ofn a thrais gynnal neb!

Fe'ch clywaf yn gofyn y cwestiwn: pam mae'n rhaid inni wybod mwy am y wraig hon? Beth sydd a wnelo hi â ni yn awr? Un peth a wn: mae'r demtasiwn a'm dinistrodd i'n dal i fodoli. Gallaf fod yn eitha siŵr fod yna bobl y gwyddoch chi amdanynt sy'n difetha bywydau pobl eraill, yn bychanu eraill, yn difa unrhyw un sy'n sefyll yn eu ffordd. Credant fod dinistrio eraill yn eu codi nhw i fyny. Mor ffôl ydynt!

Mae pobl yn fodlon difetha enw da er mwyn ennill dylanwad. Mae arweinwyr yn tawelu eu gwrthwynebwyr yn hytrach na gwrando arnynt. Mae sefydliadau'n aberthu egwyddor dda er mwyn llwyddo. Mae unigolion yn cyfaddawdu'n rhy hawdd. Efallai fod y dulliau'n wahanol, ond yr un yw'r cymhelliad: ceisio dangos bod grym yn fwy gwerthfawr na chyfiawnder. Erbyn hyn, dwi'n gwybod yn well!

Dwi am ichi gofio am Joas. Doedd ganddo ddim byd: dim byddin, dim awdurdod, dim palas, dim llais. Plentyn oedd e, ond ei oroesiad ef oedd yn gyfrifol am wyrdroi popeth: daeth y diniwed yn gryf, y gwan yn nerthol, y bach yn fawr. Mae'r gwirionedd hwnnw yr un mor berthnasol ag erioed.

Holwch eich hunan heddiw. Oes yna rywbeth fyddech chi'n ei amddiffyn mor ffyrnig fel y byddech yn fodlon aberthu er ei fwyn? Gyrfa? Enw da? Safle? Perthynas? Llwyddiant?

Mae grym a geisir ar draul rhywbeth arall yn gallu dinistrio'r sawl sy'n ei geisio. Roeddwn i'n dyheu cymaint am gadw fy safle. Ond dewis glynu at y dyhead hwnnw arweiniodd at fy nghwymp! Dyma fi felly'n eich rhybuddio chithau. Try grym heb ostyngeiddrwydd yn ormes, ac fe dry ofn heb ffydd yn ddinistr.

Dyma fy stori: mae'n hynafol, ond nid yw'n hen.

**Holi**

- A welwn ni, yn ein dyddiau ni, enghreifftiau o bobl neu sefydliadau'n aberthu eu gwerthoedd i elwa mewn rhyw fodd? Sut mae ffydd a chred yn gallu gwneud gwahaniaeth yn hyn o beth?
- Arbedwyd Joas, er y byddai Athaleia wedi'i ladd os gallai. Beth ddysgwn ni, drwy'r stori, am sofraniaeth Duw pan fo sefyllfaoedd yn ymddangos yn anobeithiol?
- Yn y tymor byr, roedd teyrnasiad Athaleia yn ymddangos yn gryf, ond roedd hi'n fregus. Ar ba fath o sylfeini y mae pobl yn tueddu i adeiladu eu bywydau arnynt heddiw?
- Os yw stori Athaleia yn ein rhybuddio am beryglon uchelgais wael a stori Joas yn ein hatgoffa o ffyddlondeb Duw, pa un sydd angen i'r Eglwys heddiw ei chlywed fwyaf, a pham?

**Gweddi**
Cymorth ni i ddewis
gostyngeiddrwydd yn hytrach nag
uchelgais ffôl,
addfwynder yn hytrach nag
anniddigrwydd,
a ffydd pan ddaw ofn yn agos.
Boed i ni weld eraill pan fo bod yn
hunan-ganolog mor hawdd. Gwna
ni'n rasol a chariadlawn. A boed inni
ddewis dilyn Ysbryd y Gwirionedd
bob amser. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 28 Mehefin 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 28 Mehefin,
am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 28 Mehefin
am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Megan Williams, Llanfair-pwll

# Ein hysgol ni




Tybed os oes gennych chi lun ohonoch yn yr ysgol wedi ei gadw dros y blynyddoedd? Wrth edrych arno, mae'n siŵr y daw â llu o atgofion am gyfoedion ac athrawon ac am brofiadau o bob math! Pe baech yn ymweld â'ch ysgol heddiw, fe fyddech yn siŵr o weld newid mawr yn y dulliau dysgu, yr hyn sydd ar y waliau, yr adeilad ei hun, a chymaint mwy.

Mae'n braf iawn fod cyfleon yn dal ar gael i eglwysi gefnogi eu hysgol leol mewn llawer iawn o ffyrdd. Mae gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ddwy ddogfen ddefnyddiol: un yn rhoi llawer o syniadau sut i greu cyswllt ag ysgolion: Cysylltu-Eglwysi-ac-Ysgolion-1.pdf, ac un arall sy'n rhoi canllawiau ar ymarfer da wrth ymweld ag ysgolion: CANLLAW-AR-GYFER-YMWELD-AG-YSGOLION-CYNRADD-AC-UWCHRADD.pdf.

Efallai na fedrwn ni i gyd gyrraedd allan yn uniongyrchol i'n hysgolion yn lleol, ond fe allwn ni i gyd weddïo dros ein hysgolion. Mae Gweddi dros Ysgolion Cymru yn annog unigolion a grwpiau i weddïo dros eu hysgolion lleol a materion addysgol ar draws Cymru. Mae'r mudiad, sy'n bodoli ers rhai blynyddoedd, wedi ei ail-lansio yma yng Nghymru ac mae gweledigaeth i weld hybiau gweddi dros dalgylchoedd ysgolion uwchradd ar draws ein gwlad. Am fwy o wybodaeth ewch i Ysgolion – Prayerhouse at Bethania i gael mynediad i'r wefan. Mae cyfle hefyd i weddïo'n genedlaethol yn rhithiol unwaith y tymor.

Cofrestrwch ar y wefan i dderbyn mwy o wybodaeth am y cyfarfodydd.

*Nia W. Williams*
*Arweinydd Tîm a Swyddog Addysg*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

## Medalau Gee 2026

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau Medalau Gee ar gyfer 2026 yw **Mehefin 30**.

Ceir manylion llawn a ffurflen gais ar y wefan:

https://ysgolsul.com/?page_id=3737

ENCIL CREADIGOL

*Ysbrydoli*

DATHLU CHWARTER MILENIWM ANN GRIFFITHS

*gyda* ANGHARAD PRICE
E. WYN JAMES
IWAN LLEWELYN-JONES
RHIANNON MARKS
GARETH EVANS-JONES
ROSIE DYMOND

NEUADD GREGYNOG

10-12 GORFFENNAF

pris penwythnos £295
(£90 Dydd Sadwrn yn unig)
gan gynnwys llety, bwyd, cyflwyniadau, cyngerdd, gweithdai ysgrifennu creadigol

Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle, ebostiwch gwasggylfinir@gmail.com

Mae nifer fach o fwrsariaethau – cysylltwch â ni felly os ydych chi am gymryd rhan, ac angen gostyngiad / bwrsari.





DATHLU CHWARTER MILENIWM ANN GRIFFITHS

Encil creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg yw hyn, wedi'i anelu at awduron, artistiaid a phawb sydd â diddordeb mewn llenyddiaeth a'r celfyddydau. Mae croeso i siaradwyr newydd hefyd.

Yn lle cynnal darlithoedd am waith a bywyd Ann, bydd awduron ac artistiaid gwadd yn myfyrio am gysylltiadau rhwng cymuned a gweledigaeth Ann a'u diddordebau nhw.



Ein gobaith yw y bydd yr encil hwn yn ysbrydoli gwaith creadigol newydd. Bydd cyfle i chi gymryd rhan mewn gweithdai creadigol, a digon o amser rhydd i ymlacio, myfyrio a mwynhau cerddoriaeth fyw ac awyrgylch arbennig Gregynog.

Cefnogwyd gan Gronfa Ysbrydoli Cymunedau Llenyddiaeth Cymru.
Supported by Literature Wales' Inspiring Communities Fund.
Llenyddiaeth Cymru Literature Wales
Prifysgol Bangor University
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Noson Allan Night Out
YSGOL Y GYMRAEG, PRIFYSGOL BANGOR

# Penderfyniadau

Dyma'r penderfyniadau fydd yn cael eu cyflwyno i gynhadledd Undeb yr Annibynwyr yn ystod yr wythnos hon. Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Abertawe 24–26 Mehefin.

### 1. Eglwysi cynhwysol

Rydym fel Adran yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth yn galw ar eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i ddyheu gyda ni i fod yn gwbl gynhwysol. Rydym am feithrin ethos lle mae meddylfryd, diwylliant, iaith, a threfniadaeth yn adlewyrchu cariad cynhwysol Crist. Rydym am fod yn llais i'r rhai heb lais, gan sefyll dros gyfiawnder, urddas, a chydraddoldeb i bawb. Apeliwn am eich cefnogaeth i'r adran wrth i ni weithio i greu arweiniad ymarferol ac ysbrydol, drwy baratoi adnoddau a fydd yn rhoi cymorth i eglwysi roi'r weledigaeth hon ar waith.

*Cynigydd*: Parchg Beti-Wyn James
*Eilydd*: Sian Meinir
*Ar ran Adran yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth, Cyngor yr Undeb.*

### 2. Mabwysiadu datganiad gan yr Undeb

Hoffai'r Adran Dinasyddiaeth gynnig y datganiad canlynol i'w fabwysiadu gan yr Undeb.

### Datganiad posib i gynhadledd flynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Gresynwn fod rhai sy'n cyffesu Iesu o Nasareth yn Arglwydd yn cefnogi ymdrechion gwaedlyd llywodraeth Israel, gyda chefnogaeth yr UDA, i ymestyn ei ffiniau ar draul ei chymdogion. Mae parhad y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol ac Iran yn fygythiad enfawr i ddyfodol y diwylliant a'r hunaniaeth Palesteinaidd. Ni chredwn fod yr hyn a gofnodir yn Llyfr Genesis yn cyfiawnhau hil-laddiad a glanhau ethnig yn y Dwyrain Canol. Ein hargyhoeddiad yw mai ffordd Iesu, ffyrdd tangnefedd a chyfiawnder, sy'n mynegi ewyllys Duw Abraham, Isaac a Jacob. Gwelir hefyd ryfeloedd eraill ledled byd, pob un, ar wahân a gyda'i gilydd, yn lladd plant Duw yn eu miloedd; dinistrir cymunedau, difethir bywoliaethau, crëir a dwyseir tlodi tra bod rhai unigolion a chorfforaethau yn gwneud elw ar draul lladd a dinistr.

Yr ydym fel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn datgan bod rhyfel yn gynhenid ddinistriol. Rydym yn cadarnhau bod ymrwymiad i heddwch yn hanfodol. Gwnawn hynny, nid oherwydd ein bod yn rhannu'r un argyhoeddiadau gwleidyddol neu'n arddel yr un daliadau diwinyddol; na, safwn gyda'n gilydd er waethaf ein hamrywiol argyhoeddiadau a daliadau i ddatgan, fel un, bod pob rhyfel yn groes i ysbryd a dysgeidiaeth Iesu, Tywysog Tangnefedd, yr Hwn sydd yn Arglwydd i ni gyd.

Yn hyn, y datguddiad o Dduw a groniclir yn y Testament Newydd yw ein hawdurdod. Penllanw'r datguddiad hwnnw yw Croes Crist. Trwy'r Groes lleddir gelyniaeth er mwyn gwneud cymod a gwir heddwch. O'r dechrau, mewn rhyfel, lleddir gelynion heb ladd yr elyniaeth. Cadoediad – oedi yn y gad – ac nid heddwch sy'n dilyn rhyfela. Bydd rhai am ddweud fod hyn yn ffolineb ac yn dangos gwendid, ond credwn ni mai doethineb Duw ydyw, nerth dwyfol. Dyma'r weinidogaeth y'n galwyd ni iddi yng Nghrist: 'Ond gwaith Duw yw'r cyfan – Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod. Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod. Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Deisyf yr ydym dros Grist, cymoder chwi a Duw.' (2 Corinthiaid 5:18–20).

Gweinidogaeth ymarferol ydyw. Gweinidogaeth weithredol, nid negyddol. Hanfod ein heddychiaeth yw nid ymatal a pheidio gwneud, ond mynnu gwneud safiad nid yn gymaint yn erbyn rhyfel, ond yn hytrach dros heddwch. Grym Efengyl Iesu Grist yw nid ei bod yn dweud 'Na' i ryfel ond ei bod yn dweud 'Ie' brwd a chyson i bob ymgais at gymod ym mhob cylch.

*Cynigydd*: Parchg Robin Samuel
*Eilydd*: Parchg Jeff Williams
*Ar ran Adran Dinasyddiaeth, Cyngor yr Undeb.*

### 3. Tŷ John Penri i'r dyfodol

Yr ydym ni fel Pwyllgor Gweinyddol yn gofyn i'r gynhadledd am yr hawl i drafod addasrwydd cyfredol Tŷ John Penri i'r dyfodol. Y mae angen i ni fod yn ymatebol i'n hoes ac yn yr ysbryd hwnnw yr ydym ni'n cynnig hwn fel man cychwyn o ran meithrin meddylfryd cadarnhaol a hyblyg er lles, parhad a thwf yr Undeb a'i eglwysi. Rydym ni'n gofyn am yr hawl i weithredu, petai hynny'n addas (boed hynny'n addasu'r adeilad cyfredol neu symud i safle arall pe bai hynny'n fanteisiol).
*Cynigydd*: Dr Fiona Gannon
*Eilydd*: Parchg Jeff Williams
*Ar ran y Pwyllgor Gweinyddol.*

### Argymhellion / Cynigion yr Adrannau

Y mae dau argymhelliad yn adroddiadau'r Pwyllgor Gweinyddol (gweler yr atodiad i gofnodion Pwyllgor Gweinyddol Ebrill 2026, tud. 32)

1. Mae'r Pwyllgor Gweinyddol yn argymell cynnydd o 5% o 1 Ionawr 2027 i bawb sy'n derbyn incwm oddi wrth yr Undeb neu ei eglwysi. Fodd bynnag, yn wyneb yr ansicrwydd economaidd presennol, gofynnir am ganiatâd i'r Pwyllgor Gweinyddol yn yr hydref gadarnhau'r canran, neu os bydd angen, ei addasu yng ngoleuni amgylchiadau.

2. Mae'r Pwyllgor Gweinyddol yn gofyn i symud yr argymhelliad blynyddol am gyflogau i dymor yr hydref blaenorol er mwyn gallu adlewyrchu yn gadarnach sefyllfa chwyddiant prisiau a chyflogau yn genedlaethol adeg gosod yr argymhelliad.



# Barn Annibynnol

## Sul y Tadau

Caiff rhywun ei demtio i ddilorni Sul y Tadau fel gŵyl 'wneud' arall sydd â'i gwreiddiau yn yr Unol Daleithiau ac a fabwysiadwyd yr ochr hon i'r Iwerydd er mwyn hybu masnach cardiau ac anrhegion.

### Gwreiddiau

Mae'n wir mai yn UDA ym mlynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif y sefydlwyd yr ŵyl arbennig hon. Fe'i hysbrydolwyd gan Sul y Mamau a dywedir mai gwraig o'r enw Sonora Smart Dodd o Spokane, Washington a welodd werth gyntaf mewn neilltuo diwrnod i ddathlu cyfraniad tadau gan iddi gael ei magu a'i chodi gan ei thad gweddw. Yn 1909, roedd Sonora wedi gwrando ar bregeth ar gyfer Sul y Mamau, a theimlodd y dylid anrhydeddu tadau yn yr un modd. Bu'i thad, William Jackson Smart, yn filwr yn Rhyfel Cartref America, a llwyddodd i fagu Sonora a'i phum brawd ar ei ben ei hun ar ôl i'w mam farw wrth esgor. Trwy ymdrechion Sonora a chefnogaeth eglwysi lleol, dathlwyd Sul y Tadau gyntaf ar 19 Mehefin 1910 yn nhalaith Washington. Ddegawdau yn ddiweddarach, cyhoeddodd yr Arlywydd Lyndon Johnson ŵyl genedlaethol swyddogol yn yr Unol Daleithiau ar drydydd Sul Mehefin i anrhydeddu tadau'r wlad, a sefydlwyd y diwrnod yn gyfraith barhaol gan yr Arlywydd Nixon yn 1972.



*Sonora Smart Dodd – 'Mam' Sul y Tadau*

### Oes gwerth i hwn?

Tyfodd poblogrwydd Sul y Tadau yng ngwledydd Prydain wedi'r Ail Ryfel Byd, ac mae gan wledydd eraill eu diwrnodau arbennig i ddathlu a gwerthfawrogi tadau a'u cyfraniad. Oes gwerth i Sul y Tadau? Mae'n siŵr bod, dim ond i ni weld ymhellach na'r achlysur masnachol moel. Mae Sul y Tadau yn gyfle i fyfyrio ar y ffordd y mae'n tadau wedi ein hyfforddi, ein harwain, a'n haddysgu yn egwyddorion Cristnogol cariad, amynedd a thynerwch. Mae'n dda cael diwrnod o gydnabyddiaeth ac atgof am dadau da.

Gall y diwrnod gynnig cyfle i ni ystyried rhinweddau penodol, yn enwedig i'r rhai hynny ohonom sy'n dadau ein hunain. Mae tadolaeth ddaearol yn ein hatgoffa o gariad diderfyn Duw y Tad, ein crëwr a'n cynhaliwr, sy'n gwrando ar ein gweddïau ac yn darparu ar ein cyfer:

> Am hynny, os ydych chi, sy'n ddrwg, yn medru rhoi rhoddion da i'ch plant, gymaint mwy y rhydd eich Tad sydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai sy'n gofyn ganddo! (Mathew 7:11)

### Tadolaeth

Yn ein cymdeithas fodern ni, diolchwn fod tadau a mamau yn gyfartal yn eu cyfrifoldebau dros gartref a theulu. Camp fawr rhieni heddiw yw hyfforddi a meithrin plant a phobl ifanc mewn byd sy'n gynyddol ddryslyd i'n hieuenctid dyfu ynddo. A diolch am y 'dadolaeth ehangach' sy'n ddylanwadau da: athrawon ac athrawon ysgol Sul, gweinidogion, arweinwyr ieuenctid a phawb sy'n cynnig patrwm, lloches, arweiniad ac esiampl i genhedlaeth iau.

Does yr un ohonom ni dadau daearol yn berffaith; mae'n swydd sy'n llawn camau gwag a blinder, ond hefyd llawenydd mawr. Yr enghraifft i ni i geisio'i dilyn yw cariad diamod ein Tad nefol wrth fod yn bresennol, yn gefnogol gariadus, ac yn llawn gras a maddeuant. Boed i Sul y Tadau ein sbarduno at hynny drwy'r flwyddyn gron.

**Eurig Davies**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

# Natur a ni

## Syr David Attenborough – *parhad*

materol.' Dywedodd mewn cyfweliad arall, 'Dwi ddim yn ddigon hyderus i honni safbwynt anffyddiwr, gan nad wyf yn ymwrthod yn llwyr â'r posibilrwydd bod yna Dduw yn bod.'

Mae rhai pethau creulon mewn natur yn ei gwneud hi'n anodd iawn iddo gredu mewn Crëwr sydd yn Dduw cariad. Mae'n cyfeirio at y modd mae paraseit yn gallu dod mewn i'r corff trwy groen traed plentyn os yw wedi padlo mewn dŵr brwnt ac mae'r paraseit hwnnw yn treiddio trwy'r corff ac yn achosi dallineb yn llygaid plentyn hollol ddiniwed.

Mae rhywun yn parchu gonestrwydd a diffuantrwydd un sydd wedi bod yn llais clir a chryf dros natur. Mae David wedi ceisio codi ein hymwybyddiaeth am realiti a bygythiad cynhesu byd-eang ar sail ei brofiad helaeth am y newid yn yr hinsawdd ar bob cyfandir.

**Gwilym Wyn**

# SUL SBESIAL

Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

**Ysgol Griffith Jones, Sancler**
**12 Gorffennaf, 2.00**

**GOLEUNI MEWN TYWYLLWCH**

Profiadau Rhian Evans



(Rhian yn darllen y Beibl Cymraeg mewn Braille yn lansiad 2010)

Gyda gweithgarwch i'r plant, a band cyfoes yn cyfeilio'r emynau.

Paned a bisgedi ar y diwedd.

CROES CYNNES IAWN I BAWB

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com


Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Lansio llyfr

Rydym yn llongyfarch y Parchg Richard Cleaves ar ei waith ymchwil diweddaraf. Teitl y gwaith ymchwil yw *Imagining Luke-Acts in Roman Britain. Through the Eyes of the People of the Bloomberg Tablets, the Vindolanda Tablets, and the Uley Tablets*. Mae'r llyfr hwn yn defnyddio tabledi Rhufeinig a







ddarganfuwyd yn ddiweddar ym Mhrydain i ail-greu bywyd a byd bob dydd y Cristnogion cynnar ac i archwilio sut y gallai pobl gyffredin ym Mhrydain Rufeinig fod wedi deall ac ymateb i neges Luc-Actau. Bydd y llyfr yn cael ei lansio Nos Fawrth, 30 Mehefin am 7pm yn Neuadd y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr a byddant ar werth am y pris gostyngol o £20. (Fel arall mae'n £37)

Dywed Richard Cleaves ymhellach, 'Ers imi ymddeol i Ben-y-bont ar Ogwr rwyf wedi bod yn ysgrifennu'r llyfr *Imagining Luke-Acts in Roman Britain*. Er ei fod yn ddarlleniad dychmygol o Efengyl Luc ac Actau'r Apostolion trwy lygaid y bobl a oedd yn gyfrifol am y tabledi o gyfnod y Rhufeiniaid a ddarganfuwyd yn ddiweddar, bydd o ddiddordeb i unrhyw un sydd â diddordeb mewn archaeoleg a Phrydain Rufeinig. Dyma'r llyfr cyntaf i ddod â chyfrif manwl ynghyd ers iddynt ddarganfod tair set o dabledi ysgrifennu, sef;

- **Tabledi Bloomberg** – yn dyddio o ganol y ganrif gyntaf. Fe'u darganfuwyd bymtheg mlynedd yn ôl yn Llundain a'u cyhoeddi yn 2016. Dyma'r darnau hynaf o ysgrifennu a ddarganfuwyd ym Mhrydain.
- **Tabledi Vindolanda** – o gaer i'r de o fur Hadrian. Maent yn parhau i gael eu darganfod ac yn rhoi cipolwg rhyfeddol ar waith yr archaeolegydd ac ar fywyd yn y fyddin Rufeinig.
- **Tabledi Uley** – a gyhoeddwyd yn 2024, ac sy'n rhoi cipolwg ar fywyd yng nghefn gwlad Prydain yn ystod y cyfnod Rhufeinig.

O ddiddordeb arbennig i ni yng Nghymru yw'r ffaith fod tystiolaeth ymhlith y tabledi hyn o'r iaith Geltaidd y mae'r Gymraeg wedi tarddu ohoni. Rwyf hefyd wedi tynnu ar lyfr dwyieithog Peter Guest a gyhoeddwyd yn 2022, a newidiodd yn sylweddol y ddealltwriaeth o bresenoldeb y Rhufeiniaid yng Nghymru: *The Roman Frontiers in Wales / Ffiniau Rhufeinig Cymru* (Cadw ac Archaeopress, 2022).'

**Richard Cleaves**



## CRISTNOGAETH 21
### Trafodaeth ar Zoom
Mehefin 29, 18.30 – 19.30

- Pwy ydyn ni?
- Beth ydyn ni'n ei wneud?
- Beth yw ein cynlluniau?

**Dewch i ddysgu mwy am C21 ac ymuno yn y sgwrs**

I gael y ddolen Zoom, anfonwch neges at cristnogaeth21@gmailcom

## Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL

24-26 Mehefin 2026
Gwesty'r Towers, Abertawe SA10 6JL

| | |
|---|---|
| 24 MEHEFIN / 1:30 | CYNHADLEDD 1<br>Dan ofal y Llywydd, Owain Llŷr Evans |
| 24 MEHEFIN / 3:30 | CYFLWYNIAD YR ARDAL LEOL<br>Yng nghwmni'r Athro Prys Morgan |
| 24 MEHEFIN / 5:00 | Y RHWYDWAITH HEDDWCH<br>Siaradwr gwadd: Mererid Hopwood |
| 24 MEHEFIN / 7:30 | CYNGERDD ABERTAWE: DINAS NODDFA<br>Tabernacl, Treforys. SA6 8BR |
| 25 MEHEFIN / 4:30 | CYFARFOD HANES<br>Siaradwr gwadd: Tudur Dylan Jones |
| 25 MEHEFIN / 7:30 | OEDFA O FAWL<br>Capel y Nant, Clydach. SA6 5HB |
| 26 MEHEFIN / 9:30 | DEFOSIWN<br>Cyfundeb Gorllewin Morgannwg |
| 26 MEHEFIN / 10:00 | Y RHWYDWAITH MERCHED<br>Lansio ymgyrch Glandeg |
| 26 MEHEFIN / 12:00 | OEDFA'R LLYWYDD |

FFRWD FYW: annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*